



Ysgol Llanfair DC Rhesymwaith ar gyfer Cwricwlwm

Y Cwricwlwm Newydd

Ymgysylltwyd gyda'r dysgwyr, rhieni, staff, llywodraethwyr a'n cymuned leol, trwy holiaduron wrth ddechrau'r broses o gynllunio i'r cwricwlwm newydd, trafodwyd y rhinweddau allweddol a fyddai'n sail i'n cwricwlwm a'n gweledigaeth. Megis cychwyn yr ydym ar hyn o bryd ar ein siwrnai i wireddu'r weledigaeth a byddwn yn cynnwys barn yr holl rhanddeiliad wrth werthuso a mireinio'r ddarpariaeth yn Ysgol Llanfair DC yn y dyfodol.

Mae'r pedwar diben yn ganolog wrth i ni ddylunio'r cwricwlwm a'r pwerau dysgu yn rhan annatod o'r dysgu, addysgu ac asesu cynnydd ein dysgwyr.



Ysgol Llanfair DC

Rhesymwaith ar gyfer Cwricwlwm

Ein Gweledigaeth a'n Gwerthoedd

Yn Ysgol Llanfair anelwn i ysbrydoli ein disgyblion i dyfu yn bersonoliaethau lawn a hyderus ac i ddatblygu eu holl ddoniau hyd eithaf eu gallu. Ar ôl ymgysylltu gyda'r dysgwyr, rhieni, staff, llywodraethwyr a'n cymuned leol, y 10 rhinwedd allweddol hyn a gododd amlaf wrth drafod ein gweledigaeth.

Cynhwysol, Dwyieithog, datrys problemau, Uchelgeisiol, Mentrus, Hyderus, Barod i ddysgu, Annibynnol, Cefnogol ac yn wydn.




Bod yn Barchus



Bod yn Ddodogel



Bod yn Barod



Cyfleoedd Cyffrous

Bydd gan ddysgwyr lais cryf i ddylanwadu ar eu dysgu. Bydd athrawon yn ystyried anghenion, safbwyntiau a chymau dysgwyr ac yn cynllunio profiadau cyffrous, heriol a blaengar ar draws pob Maes Dysgu a Phrofiad gan beidio ildio ar safonau.

Dysgu yn yr Awyr Agored

Bydd profiadau dysgu yn datblygu ac yn gwreiddio'r pedwar diben. Bydd y cwricwlwm yn darparu profiadau dysgu dilys a hwyliog yn ein cymuned leol gan annog disgyblion i fwynhau ffordd iach o fyw.

Hinsawdd y Dosbarth

Bydd dysgwyr yn dylanwadu ar ddyluniad eu hamgylchedd dysgu. Byddant yn cael cyfleoedd i weithio mewn ffyrdd sy'n gwella eu dysgu a hefyd i gyflwyno eu gwaith yn eu ffordd bersonol unigryw eu hunain.

Pwerau Dysgu Ysgol Llanfair




Dylan Dyfalbarhau



Chwilen Chwilfrydig




Cadi Canolbwytio



Caio Cydweithio



Mic Mwynhau



Rhodri Rhoi Tro



Dona Dychymyg



Gwen Gwella Gwaith

Dysgwyr yn cefnogi ei gilydd i fod yn hyderus ac yn wydn, gan groesawu her a dal ati i gyflawni eu nodau. Datblygu sgiliau ar gyfer dysgu, bywyd a gwaith.



Ysgol Llanfair DC - Cynllunio ein Cwricwlwm

Cam 1: Egwyddorion a Phwrrpas – Penderfynu ar fwriad ein cwricwlwm

Dechreuom drwy sefydlu egwyddorion y cwricwlwm sy'n adlewyrchu gwerthoedd, cyd-destun, dulliau addysgeg ac anghenion Ysgol Llanfair DC. Buom yn trafod ac yn diffinio ein hegwyddorion cwricwlwm, ein gweledigaeth a'n bwriadau gyda'r holl randdeiliaid.

Cam 2: Hawliau a Gwella – Datblygu ein cynnig i ddysgwyr

Ar ôl egluro ein hegwyddorion a'n pwrrpas, aethom ati i nodi ein cynnig i ddysgwyr. Buom yn ystyried y pethau na fyddai Ysgol Llanfair DC yn fodlon ildio arnynt a sut rydym yn bwriadu ehangu ein cwricwlwm gydag ymweliadau addysgol, gweithgareddau allgyrsiol a phrofiadau eraill i gyfoethogi'r cwricwlwm. Buom yn ystyried yr hyn y bydd dysgwyr yn ei brofi wrth iddynt fynd drwy'r ysgol a meddwl am ffyrdd o gyfleu hyn.

Cam 3: Ehangder a Chydbwysedd – Pennu cynnwys ein cwricwlwm

Rydym yn defnyddio'r disgrifiadau dysgu i dynnu ynghyd amrywiaeth eang o brofiadau, gwybodaeth a sgiliau. Cânt eu harchwilio drwy amrywiaeth o gyd-destunau, pynciau a gweithgareddau a ddewisir yn y broses o ddylunio cwricwlwm. Rydym hefyd yn creu cysylltiadau ar draws Meysydd fel y bo'n briodol. Rydym hefyd yn cefnogi dysgwyr i ymroi i'r disgrifiadau o ddysgu mewn dyfnder a soffistigeiddrwydd cynyddol dros gyfnod o amser. Rydym yn helpu dysgwyr i gymhwyso'r disgrifiadau o ddysgu mewn cyd-destunau sy'n gynyddol heriol ac yn caniatáu ar gyfer dargyfeirio, atgyfnerthu a myfyrio wrth i'w dealltwriaeth a'u defnydd o'r dysgu allweddol ddatblygu a dod yn fwy soffistigedig dros amser, gan ysgogi meddwl dwfn, trafodaeth ac ymholi.

Cam 4: Addysgeg – Cynllunio'r gwaith o gyflwyno ein cwricwlwm

Rydym wedi ceisio datblygu gweledigaeth gref o ran dysgu ac addysgu sy'n ystyried y 'pam' ar gyfer ein cwricwlwm, yn ogystal â'r beth a'r sut. Bydd ein gweledigaeth yn cydnabod rôl hanfodol yr amgylchedd dysgu o ran cefnogi dysgu effeithiol.

Cam 5: Cynnydd ac Asesu – Cynllunio ar gyfer Cynnydd

Mae cynnydd dysgwyr ar hyd continwrm dysgu 3 ac 16 oed yn ganolog i'r Cwricwlwm i Gymru. Byddwn yn defnyddio amrywiol strategaethau asesu a fydd yn galluogi pob dysgwr unigol i wneud cynnydd ar gyflymder priodol, gan sicrhau eu bod yn cael eu cefnogi a'u herio'n briodol.

Cam 6: Adolygu ac Arfarnu – Penderfynu beth sy'n gweithio'n dda a pha feysydd sydd angen eu datblygu

Gan ein bod bellach wedi sefydlu cwricwlwm Ysgol Llanfair DC, un cam pwysig yw adolygu'n rheolaidd ei effaith ar addysgu a dysgu, gan wneud unrhyw addasiadau neu newidiadau sydd eu hangen arnom i'w wella ymhellach. Byddwn yn ystyried rhagor o gyfleoedd dysgu proffesiynol i staff e.e. datblygu ymhellach y wybodaeth a'r ddealltwriaeth o arweinwyr tîm MDPH, a chyfleoedd i weithio gyda Sefydliadau AU ar ymchwil gweithredu gan athrawon.

Cam 1: Egwyddorion a Phwrpas

Ysgol Llanfair DC – Ein Gweledigaeth a'n Gwerthoedd

Dysgu gyda'n gilydd yn Ysgol Llanfair DC i ysgogi ac ysbrydoli ein disgyblion i fod y gorau y gallant fod ac i fyw'n hapus a bod yn hyderus mewn byd sy'n newid drwy'r amser! Buom yn gwrando ar ddysgwyr, rhieni, staff, llywodraethwyr a'n cymuned leol. Y 10 rhinwedd allweddol hyn a gododd amlaf wrth drafod ein gweledigaeth.

Cynhwysol, Dwyieithog, Datrys Problemau, Uchelgeisiol, Mentrus, Hyderus, Barod i Ddysgu, Annibynnol, Cefnogol, Yn Wych.

Ein Gweledigaeth a'n Gwerthoedd

Gwerthoedd Cristonogol

Haelioni

Tosturi

Dewrder

Maddeuant

Cyfeillgarwch

Parch

Diolchgarwch

Ymddiriedaeth

Dyfalbarhad

Cyfiawnder

Gwasanaeth

Gonestrwydd

Ein Gwerthoedd	Ein Hymddygiad
Caredig a Chwrtais	Mae cymuned ein hysgol yn hyrwyddo amgylchedd gofalgarg a chefnogol, gan ein bod yn trin ein gilydd â pharch.
Hapus	Rydym yn cefnogi anghenion lles pob dysgwr unigol i sicrhau eu bod yn mwynhau eu dysgu bob dydd.
Creadigol	Mae ein dysgwyr yn cael eu hannog a'u grymuso i fod yn greadigol, yn arloesol ac yn entrepreneuriaidd.
Chwilyfrydig	Caiff dysgwyr eu cefnogi i ddylanwadu ar eu dysgu eu hunain wrth i ni hwyluso ac annog amgylchedd dysgu heriol sy'n procio'r meddwl.
Iach	Byddwn yn chwarae rhan weithredol a llawn ym mywyd ein cymuned a byddwn yn annog ein dysgwyr i ddatblygu eu lles meddyliol ac emosiynol drwy ddatblygu hyder, gwytnwch ac empathi.

Mae cynhwysiant wrth wraidd ein hathroniaeth addysgol. Mae ein hysgol ni'n darparu amgylchedd cyffrous a hapus lle caiff plant eu hannog i ddod yn ddysgwyr annibynnol. Mae pob plentyn yn cael ei werthfawrogi fel unigolyn ac yn cael addysg eang a chytbwys er mwyn iddynt ddod yn ddysgwyr aeddfed, cyfrifol a hapus, sy'n cyfrannu at ddiwylliant ac ethos yr ysgol a'r gymuned ehangach.



Cam 1: Egwyddorion a Phwrpas

Ysgol Llanfair – Cyd-destun

Ysgol gynradd ddwyieithog, eglwysig, wledig ar gyrion Rhuthun yn sir Ddinbych yw Ysgol Llanfair DC. Rydym yn darparu addysg ar gyfer tua 115 o ddysgwyr o dair i un ar ddeg oed, rydym yn cynnig darpariaeth feithrin yn ystod sesiynau'r prynhawn. Mae Cylch Meithrin Y Graig ar y safle ar 4 bore yn wythnosol.

Y cyfartaledd tair blynedd ar gyfer disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yw tua 5%. Rydym wedi nodi bod gan tua 5% o ddisgyblion anghenion dysgu ychwanegol.

Mae Dysgu yn yr Awyr Agored yn rhan ganolog o ethos Ysgol Llanfair DC yn y cyfnod Sylfaen ac rydym am ddatblygu hyn drwy gydol yr ysgol.

Cymraeg yw iaith weithredol yr ysgol, ac mae'r rhan fwyaf o'r cyfathrebu rhwng staff a disgyblion yn y Gymraeg. Mae'r plant i gyd yn cael eu dysgu yn yr un dosbarth, gyda'r Gymraeg yn cadw ei amlygrwydd cryf. Mae 45% o'r plant yn siarad Cymraeg gydag o leiaf un oedolyn adref.

Mae dysgwyr yn dathlu'r iaith Gymraeg, diwylliant a threftadaeth Cymru trwy eu gwaith. Sicrhawn ein bod yn ymgorffori egwyddorion y Siarter Iaith ym mhob agwedd o'n cwricwlwm gyda'r nod o gyfoethogi iaith trwy annog mwy o ddefnydd o'r iaith Gymraeg yn gymdeithasol.



Beth yw ystyr 'Cwricwlwm'?

Dros y saith mlynedd nesaf, byddaf yn treulio mwy o amser yn Ysgol Llanfair DC nag unrhyw le arall... Beth fydda i'n ei ddysgu?

Beth yw ystyr 'Cwricwlwm'?

Dylai'r cwricwlwm fod wrth 'galon' unrhyw ysgol. Mae ein cwricwlwm yn ffordd gydlynus o feddwl er mwyn gwireddu ein gweledigaeth i sicrhau bod ein dysgwyr yn ddinasyddion uchelgeisiol, mentrus, egwyddorol ac iach.

Mae ein cwricwlwm yn eang, yn gytbwys ac yn addas ar gyfer dysgwyr o wahanol oedrannau a galluoedd. Mae'n darparu ar gyfer cynnydd priodol i ddysgwyr ac mae'n cynnwys ystod o ddarpariaeth i sicrhau hyn.

Felly, beth ddylen ni ei addysgu a pham? Sut dylem ni ei addysgu? Sut bydd hyn yn ein helpu i wireddu'r pedwar diben?

Pam ydyn ni'n addysgu hyn?

I ddarparu profiadau dysgu o ansawdd uchel, sy'n cyffroi ac yn ysgogi'r plant yn yr ystafell ddosbarth a thu hwnt.

Sut ydyn ni'n addysgu?

Bydd athrawon yn hwyluswyr dysgu. Gan ystyried anghenion, barn a chymau dysgu'r dysgwyr, byddant yn cynllunio profiadau hwyllog, heriol a blaengar. Bydd gan ddysgwyr lais cryf i ddylanwadu ar eu dysgu. Fel yr arbenigwyr, y staff addysgu fydd yn cyfarwyddo'r dysgu i gyfeiriad priodol gan ystyried barn a syniadau'r dysgwyr. Bydd dysgwyr yn dylanwadu ar ddyluniad eu hamgylchedd dysgu. Byddant yn cael cyfleoedd i weithio mewn ffyrdd sy'n cyfoethogi eu dysgu a hefyd i gyflwyno eu gwaith yn eu ffordd bersonol unigryw eu



Mae ein Cwricwlwm Ysgol Llanfair DC yn cynnwys y 6 Maes Dysgu a Phrofiad, mae'n cwmpasu'r Datganiadau o'r Hyn sy'n Bwysig ac yn adlewyrchu'r Egwyddorion Cynnydd. Mae'n cynnwys yr elfennau cwricwlwm gofynnol ac mae'n cwmpasu'r sgiliau trawsgwricwlaidd gofynnol a'r sgiliau annatod sy'n sail i bedwar diben y cwricwlwm.

Cyfrifoldebau Cwricwlaidd


Mae ein cwricwlwm Ysgol Llanfair DC yn gwreiddio'r sgiliau trawsgwricwlaidd gorfodol a'r sgiliau annatod sy'n sail i bedwar diben y cwricwlwm.

Mae sgiliau llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol yn hanfodol i alluogi dysgwyr i wireddu'r pedwar diben. Mae'r tri sgil trawsgwricwlaidd gorfodol hyn wedi'u gwreiddio a'u datblygu ar draws pob maes dysgu a phrofiad, i alluogi dysgwyr i gael mynediad i'r cwricwlwm cyfan a'u defnyddio yn y dyfodol.

Mae ein dysgwyr yn cael cyfleoedd ar draws y cwricwlwm i:

- datblygu sgiliau gwrando, darllen, siarad ac ysgrifennu
- gallu defnyddio rhifau a datrys problemau mewn sefyllfaoedd go iawn
- bod yn ddefnyddwyr hyderus o ystod o dechnolegau i'w helpu i weithredu a chyfathrebu'n effeithiol a gwneud synnwyr o'r byd

3 Sgil Trawsgwricwlaidd



Yn Ysgol Llanfair DC rydym yn ystyried yn ofalus elfennau gorfodol y cwricwlwm wrth gynllunio.

Rydym yn manylu ar ein bwriad ar gyfer yr elfennau hyn o fewn ein polisïau.

Wrth gynllunio ar gyfer Ysgol Llanfair DC rydym am sicrhau bod ein dysgwyr yn cael profiadau dysgu o ansawdd uchel, cyfoethog, eang a chytbwys. Rydym hefyd yn bwriadu sicrhau bod ein darpariaeth a'n haddysgu yn datblygu'r sgiliau annatod, sy'n hanfodol i gyflawni'r pedwar diben.



Beth yw'r elfennau Cwricwlwm Mandodol?

Crefydd, gwerthoedd a moeseg


Addysg cydberthynas a rhywioldeb

Cymraeg

Saesneg

Wrth ddylunio ein cwricwlwm Ysgol Llanfair DC rydym wedi cynnwys y pum thema trawsgwricwlaidd. Rydym wedi ystyried yr elfennau statudol o fewn fframwaith CaW:

- Gyrfaoedd a Phrofiad Cysylltiedig â Gwaith
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015)
- Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn
- Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau
- Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysgol (2018)



Y Pethau nad yw Ysgol Llanfair DC yn ildio arnynt

Yn Ysgol Llanfair DC, ein nod yw cyfoethogi ac ehangu ein cwricwlwm drwy gyfleoedd dysgu drwy brofiad yn ein hardal leol a thu hwnt. Mae gan ein dysgwyr hawl i amrywiaeth o elfennau na allwn ildio arnynt sy'n cyfoethogi eu datblygiad personol.

- **Safonau llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol** - Rydym yn gweithio'n galed i sicrhau bod y disgyblion i gyd yn cyrraedd eu llawn botensial. Byddwn yn parhau i gyflwyno'r sgiliau i'r disgyblion yn y boreau mewn sesiynau i ddatblygu safonau llythrennedd a rhifedd uwch, ac i ddod yn fwy cymwys yn ddigidol. Byddwn wedyn yn defnyddio'r sgiliau yma i bwrpas yn ein heriau prynhawn.
- **Iechyd a Lles** - Mae'r pwerau dysgu a meddylfryd o dwf yn cryfhau gwydnwch a pharodrwydd y plant i ddysgu. Cynigwn sesiynau ELSA i unigolion, grwpiau bach a dosbarthiadau yn ôl anghenion y disgyblion. Mi fydd ffocws ar ddysgu yn yr awyr agored. Mi fydd cyfle i bawb fod yn gwneud y filltir ddyddiol.
- **Ethos Cristnogol** - Mae'r gwerthoedd a'r ethos Cristnogol hwn yn cynrychioli'r egwyddorion craidd sy'n arwain y broses o wneud penderfyniadau dyddiol. Maen nhw'n ein helpu ni i benderfynu pa gamau i'w cymryd, ac i wneud dyfarniadau am dda neu ddrwg. Maent yn sail i deimlad teuluol yr ysgol.
- **Cymreictod - yr iaith, treftadaeth a diwylliant** - Mae dysgwyr yn dathlu'r iaith Gymraeg, diwylliant a threftadaeth Cymru trwy gydol eu gwaith a'u bywyd ysgol.
- **Cynwysedig** - Mae cynhwysiant wrth wraidd ein hathroniaeth addysgol. Byddwn yn ystyried anghenion unigol ein plant er mwyn sicrhau bod pawb yn cael yr amrywiaeth o brofiadau maent yn haeddu.



Datganiadau o'r Hyn sy'n Bwysig

Rydym wedi casglu ynghyd ystod eang o brofiadau, gwybodaeth a sgiliau sy'n cael eu harchwilio drwy amrywiaeth o gyd-destunau, pynciau a gweithgareddau sy'n cael eu dewis yn y broses o ddylunio cwricwlwm. Mae gennym Arweinydd i bob MDPH sydd wedi cydweithio i ddatgloi'r 27 Datganiad o'r Hyn sy'n Bwysig i greu cysylltiadau ar draws yr holl Feysydd Dysgu a Phrofiad fel sy'n briodol.

Rydym yn cefnogi dysgwyr i ymroi i'w dysgu mewn dyfnder a soffistigeiddrwydd cynyddol dros gyfnod o amser. Rydym yn helpu dysgwyr i gymhwyso eu dysgu mewn cyd-destunau sy'n gynyddol heriol ac yn caniatáu ar gyfer dargyfeirio, atgyfnerthu a myfyrio wrth i'w dealltwriaeth a'u defnydd o'r dysgu allweddol ddatblygu a dod yn fwy cywrain dros amser, gan ysgogi meddwl dwfn, trafodaeth ac ymholi.



Cwricwlwm i Gymru

Cipolwg ar y Datganiadau o'r Hyn sy'n Bwysig

Dylid darllen y 27 datganiad Yr Hyn sy'n Bwysig yn eu cyfanrwydd i'w deall yn llawn. <https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/cynllunio-eich-cwricwlwm/egwyddorion-ar-gyfer-cynllunio-ch-cwricwlwm/#datganiadau-o'r-hyn-sy'n-bwysig>

Y Celfyddydau Mynegiannol YHSB1 Mae archwilio'r celfyddydau mynegiannol yn hanfodol er mwyn dyfnhau sgiliau a gwybodaeth gelfyddydol, ac mae'n galluogi dysgwyr i ddod yn unigolion chwilfrydig a chreadigol.	Y Celfyddydau Mynegiannol YHSB2 Mae ymateb a myfyrio, fel artist ac fel cynulleidf, yn rhan hanfodol o ddysgu yn y celfyddydau mynegiannol.	Y Celfyddydau Mynegiannol YHSB3 Mae creu yn cyfuno sgiliau a gwybodaeth, gan dynnu ar y synhwyrau, ysbrydoliaeth a dychymyg.	Y Dyniaethau YHSB1 Mae ymholi, archwilio ac ymchwilio yn ysbrydoli chwilfrydded am y byd, ei orffennol, ei bresennol a'i ddyfodol.
Y Dyniaethau YHSB2 Mae digwyddiadau a phrofiadau dynol yn gymhleth a chânt eu hamgyffred, eu dehongli a'u cynrychioli mewn gwahanol ffyrdd.	Y Dyniaethau YHSB3 Mae ein byd naturiol yn amrywiol a deinamig, wedi'i ddylanwadu gan brosesau a gweithredoedd dynol.	Y Dyniaethau YHSB4 Mae cymdeithasau dynol yn gymhleth ac yn amrywiol, ac maen nhw'n cael eu llywio gan weithredoedd a chredoau pobl.	Y Dyniaethau YHSB5 Mae dinasyddion gwybodus, hunanymwbyddol yn mynd i'r afael â'r heriau a'r cyfleoedd sy'n wynebu dynoliaeth, ac yn gallu cymryd camau ystyrlon ac egwyddorol.
Iechyd a Lles YHSB1 Mae datblygu iechyd a lles y corff yn arwain at fuddiannau gydol oes.	Iechyd a Lles YHSB2 Mae'r ffordd rydym yn prosesu ein profiadau ac yn ymateb iddyn nhw yn effeithio ar ein hiechyd meddwl a'n lles emosiynol.	Iechyd a Lles YHSB3 Mae'r ffordd rydym yn gwneud penderfyniadau yn effeithio ar ansawdd ein bywydau ni a bywydau eraill.	Iechyd a Lles YHSB4 Mae'r ffordd rydym yn ymwneud â dylanwadu cymdeithasol yn siapio pw ydym ni, ac yn effeithio ar ein hiechyd a'n lles.
Iechyd a Lles YHSB5 Mae cydberthnasau iach yn hanfodol ar gyfer ein lles.	Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu YHSB1 Mae ieithoedd yn ein cysylltu â'n gilydd.	Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu YHSB2 Mae deall ieithoedd yn allweddol i ddeall y byd o'n hamgylch.	Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu YHSB3 Mae mynegi ein hunain drwy ieithoedd yn allweddol i gyfathrebu.
Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu YHSB4 Mae llenyddiaeth yn tanio'r dychymyg ac yn ysbrydoli creadigrwydd.	Mathemateg a Rhifedd YHSB1 Defnyddir y system rif i gynrychioli a chymharu'r perthnasoedd rhwng rhifau a meintiau.	Mathemateg a Rhifedd YHSB2 Mae algebra yn defnyddio systemau symbolau i fynegi strwythur perthnasoedd mathemategol.	Mathemateg a Rhifedd YHSB3 Mae geometreg yn canolbwyntio ar berthnasoedd sy'n ymwneud â siâp, gofod a safle, ac mae mesur yn canolbwyntio ar feintoli ffenomena yn y byd ffisegol.
Mathemateg a Rhifedd YHSB4 Mae ystadegau yn cynrychioli data, mae tebygolrwydd yn modelu siawns, ac mae'r ddau yn cefnogi casgliadau a phenderfyniadau gwybodus.	Gwyddoniaeth a Thechnoleg YHSB1 Mae bod yn chwilfrydig a chwilio am atebion yn hanfodol i ddeall a rhagfynegi ffenomenau.	Gwyddoniaeth a Thechnoleg YHSB2 Mae meddylfryd dylunio a pheirianneg yn cynnig ffyrdd technegol a chreadigol i ddiwallu anghenion a dymuniadau cymdeithas.	Gwyddoniaeth a Thechnoleg YHSB3 Mae'r byd o'n cYHSBpas yn llawn pethau byw sy'n dibynnu ar ei gilydd i oroesi.

Cam 4: Addysgeg

Cynllunio'r gwaith o gyflwyno ein cwricwlwm


Yn Llanfair DC rydym yn rhoi gwybodaeth a sgiliau disgyblaeth-benodol i'n dysgwyr. Rydym yn eu haddysgu'n uniongyrchol ar ddechrau pob diwrnod er mwyn datblygu meistrolaeth ieithoedd a mathemateg, a hynny mewn dosbarthiadau a grwpiau sy'n unol ag oedran a chyfnod. Am weddill y diwrnod bydd dysgwyr yn gwneud heriau i atgyfnerthu'r sgiliau ac yn mynd ar drywydd thema'r tymhorol.

Ardaloedd Dysgu

Mae gan bob ystafell ddosbarth chwe Ardal Dysgu. Mae'r ardaloedd wedi enwi yn unol ag oedran y disgyblion yn y dosbarth e.e yng nghyfnod allweddol: Man Mathemateg, Llecyn Llythrennedd, Cwt Celfyddydau, Ystafell Ymchwil, Den Digidol a Gweithdy Gwyddoniaeth a Thecnoleg

Grym Llais y Disgybl

Mae dysgwyr yn chwarae rhan ganolog yn y gwaith o gynllunio'r thema bob tymor. Cynhelir sesiynau Pawb yn Cynllunio yn y Dosbarth yn rheolaidd yn ôl y galw i sicrhau bod dysgwyr yn cael eu cynnwys yn y gwaith o gynllunio'r heriau ac ardaloedd dysgu ymhellach.



Cam 4: Addysgeg

Cynwysoldeb

ADY

Fel ysgol rydym yn sicrhau bod anghenion pob dysgwr yn cael eu diwallu trwy ddarpariaeth addysgu a dysgu o ansawdd uchel. Mae ein Darpariaeth Gyffredinol yn cynnwys: addysgu dosbarth cyfan, gwahaniaethu effeithiol, gwaith grŵp cydweithredol, ymyriadau unigol a grwpiau bach, addasiadau priodol a rhesymol i alluogi mynediad i amgylchedd, cwricwlwm a chyfleusterau'r ysgol.

Yn ystod eu cyfnod yn Ysgol Llanfair DC, bydd y rhan fwyaf o ddysgwyr yn gwneud cynnydd disgwyledig yn eu dysgu o'u manau cychwyn. Os nad yw plentyn yn dod yn ei flaen, byddwn yn casglu arsylwadau, yn defnyddio data asesu ac yn ceisio gweithio ar y cyd ag asiantaethau allanol / gweithwyr proffesiynol i nodi unrhyw anghenion dysgu ychwanegol.

Iechyd a Lles

Mae Iechyd a Lles pawb yn ffocws ac yn flaenoriaeth uchel ar draws popeth a wnawn yn Ysgol Llanfair DC.



Cam 5: Cynnydd ac Asesu Camau Cynnydd



→ Cam Cynnydd 1
Meithrin a Derbyn



Cam Cynnydd 1→2
Blynyddoedd 1, 2 a 3




Cam Cynnydd 2→3
Blynyddoedd 4,
5 a 6

Egwyddorion Cynnydd

- Ehangder a dyfnder gwybodaeth cynyddol
- Dyfnhau'r dealltwriaeth o'r syniadau a'r disgyblaethau yn y Meysydd
- Mireinio a soffistigeiddrwydd cynyddol wrth ddefnyddio a chymhwyso sgiliau
- Creu cysylltiadau a throsglwyddo dysgu i gyd-destunau newydd
- Cynyddu effeithiolrwydd

Caiff cynnydd ei gefnogi gan y disgrifiadau dysgu sy'n cynnig arweiniad ar sut y dylai dysgwyr ddangos cynnydd o fewn pob datganiad o'r hyn sy'n bwysig:

- ✓ wedi'u trefnu yn bum cam cynnydd sy'n cynnwys cyfeirbwyntiau ar gyfer cyflymder
- ✓ eu cyflen o safbwynt y dysgwyr
- ✓ Wedi'i fframio'n fras i gynnal dysgu dros gyfres o flynyddoedd
- ✓ Yn fras maen nhw'n cyfateb i ddisgwyliadau ar gyfer oedranau 5, 8, 11, 14 ac 16.
- ✗ Tasgau neu weithgareddau annibynnol.
- ✗ meini prawf asesu



***Ein rôl ni yn y pontio ar hyd y
continwwm 3 i 16***

Mae ein dysgwyr wrth galon y broses bontio. Rydym yn cefnogi pob dysgwr ar hyd y continwwm dysgu, wrth iddynt symud rhwng gwahanol grwpiau, gwahanol ddosbarthiadau, gwahanol flynyddoedd a gwahanol leoliadau. Rydym yn sicrhau bod lles pob dysgwr yn rhan bwysig ac annatod o'n prosesau, gan gydnabod anghenion unigolion, ar yr un pryd â chefnogi dilyniant a chynnydd yn eu dysgu. Mae ein dealltwriaeth o bob dysgwr unigol, a geir drwy ein strategaethau asesu, yn hanfodol i gefnogi'r broses hon.

Asesu

Mae dilyniant dysgwyr ar hyd continwrm dysgu rhwng 3 ac 16 oed yn ganolog i'r Cwricwlwm i Gymru. Byddwn yn defnyddio amrywiol strategaethau asesu a fydd yn galluogi pob dysgwr unigol i wneud cynnydd ar gyflymder priodol, gan sicrhau eu bod yn cael eu cefnogi a'u herio yn unol â hynny. I ddechrau, byddwn yn defnyddio Taith 360 fel adnodd asesu a thracio.

Diben Asesu

Rydym yn defnyddio amrywiol strategaethau asesu fel diben cyffredinol yn y cwricwlwm i gefnogi pob dysgwr i wneud cynnydd.

Yn ogystal â hyn, mae asesu yn chwarae rôl sylfaenol mewn sicrhau bod pob dysgwr unigol yn cael ei gefnogi a'i herio'n briodol ac rydym yn defnyddio'r strategaethau i gyfrannu at ddatblygu darlun cyflawn o'r dysgwr - ei gryfderau, y ffyrdd y mae'n dysgu, a'i feysydd i'w datblygu - er mwyn llywio'r camau nesaf o ran dysgu ac addysgu.

Mae ein hasesiadau'n cefnogi cynnydd dysgwyr unigol yn barhaus o ddydd i ddydd(AgD); yn nodi, cofnodi a myfyrio ar gynnydd dysgwyr unigol dros amser; ac yn deall cynnydd grwpiau er mwyn adlewyrchu ar ein hymarfer.

Rydym hefyd yn asesu ac yn monitro lles pob dysgwr (PASS). Defnyddir yr asesiadau hyn i lunio ciplun manwl sy'n darparu targedau lles.



Cyfathrebu ac ymgysylltu gyda rhieni/gofalwyr

Rydym yn cyfathrebu'n effeithiol gyda rhieni/gofalwyr yn barhaus i feithrin perthnasoedd cadarnhaol er mwyn eu cynnwys mewn deialog pwrpasol ac ystyrlon. O wneud hyn yn dda, gall hyn helpu cynnydd dysgwyr drwy helpu rhieni/gofalwyr i ddeall sut y gallant gefnogi dysgu y tu mewn a thu allan i amgylchedd yr ysgol.

Rydym wedi datblygu a gweithredu prosesau sy'n cefnogi cyfathrebu ac ymgysylltu dwy ffordd effeithiol gyda rhieni/gofalwyr. Wrth ddatblygu'r prosesau hyn, ystyriwyd defnyddio amrywiaeth eang o wahanol ddulliau cyfathrebu, e.e. wyneb yn wyneb, digidol drwy SeeSaw ac e-bost.

Mae gwybodaeth am unrhyw gymorth, ymyraethau neu anghenion ychwanegol sydd eu hangen ar gyfer datblygiad y dysgwr yn cael ei rhannu gyda rhieni a gofalwyr.

